Philip Doddridge 1702–1751

Gweinidog Annibynnol, awdur ac emynydd

'Gras, O'r fath beraidd sain, i'm clust hyfrydlais yw.'

Ganwyd Philip Doddridge ar 26 Mehefin 1702 yn Llundain, yr olaf o ugain o blant i Daniel Doddridge, masnachwr olew a phicls, a'i wraig Monica. Ymddiswyddodd ei daid ar ochr ei dad, John Doddridge, rheithor Shepperton, yn dilyn y Ddeddf Unffurfiaeth gan fynd yn weinidog Anghydffurfiol. Pan oedd Philip yn ifanc iawn roedd ei fam yn dysgu straeon Beiblaidd iddo. Ei diwtor cyntaf oedd Mr Stott ac ym 1712 aeth i ysgol gweinidog Presbyteraidd o'r enw Daniel Mayo yn Kingston. Bu farw ei fam pan oedd yn wyth oed a'i dad pan nad oedd ond tair ar ddeg oed. Aeth i ofal Mr Downes ac fe'i hanfonwyd i ysgol Dr Nathaniel Wood yn St Albans. Ym 1719 aeth yn fyfyriwr i Academi'r gweinidog annibynnol John Jennings nid nepell o Gaerlŷr (Leicester). Pregethodd ei bregeth gyntaf tra oedd yn fyfyriwr a hynny yn Nuneaton. Derbyniodd wahoddiad i fynd yn weinidog i Kibworth ar gyflog o £35 y flwyddyn. Yno treuliai lawer iawn o amser yn darllen ac yn astudio a'i arwr llenyddol ar y pryd oedd Richard Baxter. Ym 1729 dechreuodd hyfforddi myfyrwyr yn Market Harborough a thyfodd y dosbarth hwn i fod yn un o academïau mwyaf dylanwadol Anghydffurfwyr Lloegr yn ystod y ddeunawfed ganrif. Derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys Castle Hill, Northampton.

Fe'i hordeiniwyd ar 19 Mawrth 1730 ar gyflog o £70 ac yno y bu trwy gydol gweddill ei oes. Gweithiodd yn galed yn bugeilio, pregethu a chyfansoddi emynau ac fe dyfodd yr eglwys. Cyhoeddodd hefyd gyfrolau o'i bregethau gan gynnwys *Sermons on the Religious Education of Children* (1732), *Sermons to Young Persons* (1735), *Ten Sermons on the Power and Grace of Christ* (1736), a *Practical Discourses on Regeneration* (1741). Priododd ferch o'r enw Mercy ym 1730 ac fe gawsant naw o blant. Ochr yn ochr â'i waith fel gweinidog ar eglwys yr oedd yn gyfrifol am academi i hyfforddi dynion i'r weinidogaeth. Cynhelid yr academi mewn tŷ mawr yn Sheep Street, Northampton. Pedair blynedd oedd hyd

y cyrsiau a disgwylid i'r myfyrwyr dalu'n flynyddol £16 am wely a bwyd, £4 o ffioedd dysgu a £1 1s am ystafell fechan i astudio. Roedd y cwrs yn cynnwys diwinyddiaeth, moeseg, Lladin, Groeg, Hebraeg, hanes a'r gyfraith. Daethpwyd i ystyried Doddridge fel un o brif addysgwyr Lloegr ac ym 1736 derbyniodd radd DD gan Goleg Marischal, Aberdeen. Cyhoeddodd hefyd lawer o lyfrau a'r rhai mwyaf dylanwadol oedd *The Rise and Progress of Religion in the Soul* (1745), *Some Remarkable Passages in the Life of the Honourable Col. James Gardiner* (1747), a *The Family Expositor* (1739–56).

Ym mis Mehefin 1751 fe'i trawyd yn wael ac fe'i cynghorwyd gan feddyg i fynd i Lisbon i dreulio'r gaeaf. Gwaetha'r modd bu farw yno ar 26 Hydref yn 49 oed ac fe'i claddwyd ym mynwent y Ffactri Brydeinig. Ar ôl ei farwolaeth cyhoeddwyd rhagor o'i waith ac yn fwyaf arbennig ei emynau. Yn aml pan fyddai'n pregethu ar destun arbennig ar y Sul byddai hefyd yn cyfansoddi emyn i'r gynulleidfa ei ganu ar ôl y bregeth. Cyhoeddwyd yr emynau o dan y teitl *Hymns Founded on Various Texts in the Holy Scriptures* (1755). Roedd y gyfrol hon yn cynnwys ei emynau poblogaidd, 'O God of Jacob', 'O happy day', 'Hark the glad sound!', a 'Ye servants of the Lord'. Cyfieithiad o'i waith ef yw'r emyn Cymraeg cyfarwydd, 'Gras, O'r fath beraidd sain, i'm clust hyfrydlais yw.'